

## Telerau ac Amodau'r Cymhorthdal Teithio

### Pwy sy'n gymwys?

**Gallai** grwpiau o bobl ifanc sy'n gwneud Ymweliad Addysgol â Senedd y DU o etholaethau'r DU fod yn gymwys i dderbyn cymhorthdal teithio i helpu i gefnogi'r gost teithio i Lundain ac yn ôl.

### Lefel y Cymhorthdal

Penderfynir lefel y cymhorthdal gan y Band Cymhorthdal Teithio y mae'r grŵp yn rhan ohono. Ni ellir newid dyraniad etholaethau i Fandiau Cymhorthdal Teithio. [Gall grwpiau weld pa fand y byddant yn rhan ohono yma.](#)

Mae'r lefel cymhorthdal ym mhob band fel a ganlyn:

- Band A: ddim yn gymwys
- Band B: 50% o'r costau teithio â derbynneb, hyd at uchafswm o £800
- Band C 75% o'r costau teithio â derbynneb, hyd at uchafswm o £1600

### Meini prawf cymhwysedd

1) Rhaid i'r grwpiau fod wedi trefnu mynychu un o'r gweithgareddau canlynol:

- Ymweliad wedi'i drefnu trwy Wasanaeth Addysg ac Ymgysylltu Senedd y DU
- Taith ysgol wedi'i threfnu trwy swyddfa Teithiau Mynediad Democrataidd gan AS lleol eich ysgol **O.N. Nid yw teithiau anffurfiol a gyflwynir yn uniongyrchol gan ASau, Aelodau Tŷ'r Arglwyddi neu eu staff yn gymwys.**

2) Rhaid i grwpiau fod o sefydliad a ariennir gan y wladwriaeth neu sefydliad cymwys arall (gweler Atodiad A isod). Gall grŵp cymwys wneud cais am gymhorthdal teithio tuag at y costau teithio rhesymol, gwirioneddol (e.e. tocyn trên neu fws) a dalwyd wrth deithio i Lundain ac yn ôl ar gyfer ei Ymweliad Addysgol â Senedd y DU. Byddwn yn disgwyl y bydd grwpiau sy'n cyrraedd Llundain ar y trên neu mewn awyren yn defnyddio trafndiaeth gyhoeddus i gyrraedd Dau Dŷ'r Senedd. Os nad yw hyn yn bosibl neu os nad dyma'r dull teithio mwyaf effeithiol o ran cost, esboniwch pam pan fyddwch yn anfon eich cais atom. Os hoffech siarad â ni cyn trefnu eich taith, cysylltwch â ni ar [engage@parliament.uk](mailto:engage@parliament.uk)

3) Rhaid i grwpiau ymweld o etholaeth o fewn Band B neu C o'r [bandiau Cymorthdal Teithio](#).

4) **Rhaid** i grwpiau beidio â bod wedi gwneud cais am gymhorthdal ar gyfer ymweliad yn y flwyddyn ariannol gyfredol (1 Ebrill – 31 Mawrth)

5) Rhaid i'r grŵp gynnwys pobl ifanc rhwng 5 a 18 oed, fel a nodir yn y telerau ac amodau ar gyfer Ymweliadau Addysgol.

6) Bydd sefydliadau trydydd parti sy'n trefnu ymweliadau ar ran ysgoliion yn ddarostynedig i'r un nifer blynyddol ag ysgolion sy'n trefnu'n uniongyrchol gyda'r Tîm Addysg ac Ymgysylltu - uchafswm o 108 o bobl y flwyddyn fesul ymweliad ysgol neu sefydliad. Gwneir taliad am unrhyw Gymhorthdal Teithio'n uniongyrchol i'r sefydliad addysgol trydydd parti sy'n trefnu'r ymweliad.

## Telerau ac amodau

- 1) Ni fydd ymweliadau yn gymwys i dderbyn cymhorthdal pan fydd grwpiau'n gofyn am orffen sesiwn yn gynnar. Sicrhewch wrth drefnu ymweliad, eich bod yn dewis math o ymweliad a fydd yn caniatáu i chi fynychu'r sesiwn gyfan.
  - 2) Gall grŵp cymwys wneud cais am gymhorthdal teithio tuag at y costau teithio rhesymol, gwirioneddol (e.e. tocyn trên neu fws) a dalwyd wrth deithio i Lundain ac yn ôl ar gyfer ei Ymweliad Addysgol â Senedd y DU.
  - 3) Costau teithio gwirioneddol yw'r swm o arian a delir, ar ôl unrhyw ddisgowntiau, ad-daliadau neu ostyngiadau eraill, at unig ddiben teithio'r grŵp o etholaeth band B neu C i Senedd y DU.
- Nid yw'r costau teithio gwirioneddol yn cynnwys, ac nid oes cymhorthdal ar gael ar gyfer, teithiau unigol i ymuno â'r grŵp ar ddechrau'r daith (neu ar unrhyw bwynt arall), lluniaeth, llety na theithiau o fewn Llundain at unrhyw bwrpas heblaw'r Ymweliad Addysgol.
- 4) Rhaid i'r Ymweliad Addysgol â Senedd y DU fod yn brif bwrpas y daith. Er y gall grwpiau ddewis cymryd rhan mewn gweithgareddau eraill yn ystod y daith, ni ellir derbyn cymhorthdal ar gyfer y costau teithio sy'n ymwneud â'r gweithgareddau hynny ac ni ddylid eu cynnwys yn y cais.
  - 5) Rhaid trefnu Ymweliad Addysgol yn uniongyrchol trwy Senedd y DU neu swyddfa leol AS yn unol â thelerau ac amodau'r gwasanaethau hyn. Bydd ymweliadau sy'n gymwys i dderbyn cymhorthdal yn parhau i fod yn ddarostyngedig i'r telerau ac amodau hynny bob amser.
  - 6) Nid yw cymhwysedd am gymhorthdal yn rhoi unrhyw hawliau na blaenoriaeth ychwanegol.

## Hawlio cymhorthdal

Ar ôl trefnu Ymweliad Addysgol, bydd grwpiau cymwys yn derbyn cadarnhad e-bost o'u hymweliad(au). Bydd y prif e-bost trefnu ymweliad yn cynnwys dolen i ffurflen hawlio cymhorthdal ar-lein i'w chwblhau a'i hargraffu ar ôl eich ymweliad cyn ei phostio atom. Os oes gennych sawl sesiwn ymweld wedi'u trefnu ar yr un diwrnod, gofynnir i chi ddarparu'r prif gyfeirnod archebu ynghyd â chyfeirnodau ar gyfer unrhyw sesiynau eraill.

Ar ôl yr ymweliad, dylai'r prif gyswllt gwblhau a dychwelyd y ffurflen hawlio Cymhorthdal Teithio ynghyd â'r holl dystiolaeth angenrheidiol o'r costau teithio gwirioneddol.

Gwneir y taliad am gymhorthdal yn unig ar ôl cadarnhau'r ymweliad yn fewnol ac ar ôl i weinyddwr y cynllun dderbyn:

- Ffurflen hawlio wedi'i chwblhau'n llawn gan y grŵp
- Derbynebau neu anfonebau gwreiddiol ar gyfer costau teithio a dalwyd gan y grŵp. Yn ogystal â derbynebau cardiau credyd, dylid cynnwys prawf am fanylion teithio, megis tocynnau neu anfonebau.

Rhaid derbyn y dogfennau hyn dim hwyrach na **60 niwrnod** ar ôl yr ymweliad. Ni phrosesir ceisiadau a dderbynnir ar ôl yr adeg hon.


Cyfrifoldeb y grŵp yw hawlio'r cymhorthdal a darparu'r holl waith papur angenrheidiol o fewn y terfyn amser. Bydd methu â darparu'r ddogfennaeth ofynnol o fewn y terfyn amser yn arwain at y cais yn cael ei wrthod.

## Canmoliaeth, Cwynion a Sylwadau

Os hoffech gysylltu â ni gydag adborth ynghylch y broses o wneud cais ar gyfer Cymhorthdal Teithio, dilynwch y ddolen [hon](#) a dewis y weithred briodol.

## Telerau ac amodau'r cymhorthdal teithio: Atodiad A

### Ydych chi'n gymwys i dderbyn ein cymhorthdal teithio?

<p><b>C1:</b></p>	<p>Pa ardal y mae eich ysgol yn rhan ohoni? (Os nad ydych yn siŵr cyfc eiriwch at Restr A dros y dudalen)</p> 	<p>Band A: Nid ydych yn gymwys</p> <p>Band B: Ewch i gwestiwn 2</p> <p>Band C Ewch i gwestiwn 2</p>
<p><b>C2:</b></p>	<p>Ydy'ch ysgol wedi'i hariannu gan y wladwriaeth? (Os nad ydych yn siŵr cyfeiriwch at Restr A isod)</p>	<p>YDY Ewch i gwestiwn 3 NAC YDY Nid ydych yn gymwys</p>
<p><b>C3:</b></p>	<p>Ydy'ch ysgol/grŵp wedi ymweld yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf?</p>	<p>YDY Nid ydych yn gymwys NAC YDY Rydych yn gymwys</p>

**Noder:** Rydym yn gwirio pob cais am gymhwysedd ar ôl derbyn hawliad.

## Rhestr A: Math o grŵp

Math o Ysgol/Grŵp	Cymwys	Math o Ysgol/Grŵp	Cymwys
Academiâu Trawsnewidiol	YDYN	Integredig a Gynhelir â Grant (Gogledd Iwerddon yn unig)	YDY
Ysgol a reolir yn wirfoddol	YDY	Grŵp Addysg Ddewisol yn y Cartref	YDY
Ysgolion a gynhelir yn Gatholig	YDYN	Ysgol annibynnol	NAC YDY
Prifysgol y Plant	YDYN	Ysgolion Awdurdodau Lleol	YDY
Grŵp cymunedol	YDY	Grŵp a noddir yn breifat	NAC YDY
Ysgol gymunedol (Lloegr a Chymru)	YDY	Academi a arweinir gan nawdd	YDY
Ysgol gymunedol (Iwerddon)	YDY	Ysgolion Stiwdio	YDYN
Ysgolion Integredig a Reolir (Gogledd Iwerddon)	YDYN	Sefydliadau mewn lifrai h.y. Sgowtiaid, Brownis ayyb.	YDYN
Ysgolion a reolir (Gogledd Iwerddon)	YDYN	Ysgol a gynorthwyir yn wirfoddol	YDY
Ysgol sefydledig	YDY	Gwirfoddol a Gynhelir (Gogledd Iwerddon yn unig)	YDY
Ysgol am ddim	YDY	Gwirfoddol Heb ei Chynnal (Gogledd Iwerddon yn unig)	YDYN
Colegau Addysg Bellach (myfyrwyr hyd at 18 oed)	YDYN	Grwpiau ieuencid	YDYN
A Gynorthwyir gan Grant (yr Alban yn unig)	YDY		

Os ydych yn credu y dylai eich ysgol fod yn gymwys, ond nad yw'n rhan o unrhyw un o'r mathau hyn o grwpiau, cysylltwch â ni ar 0207 219 4496 neu ar [engage@parliament.uk](mailto:engage@parliament.uk)